



Pensaernïaeth Waldo

Mae naws hyfryd, agos-atoch yn enw dinas leiaf Cymru, Tyddewi. Yn union fel y mae'r grisiau'n arwain i lawr at y gadeirlan yno, mae rhywbeth darostyngedig am y modd y mae enw'r lle'n osgoi unrhyw rwysg a allasai ddod o ddefnyddio gair fel 'eglwys' neu hyd yn oed 'llan'. Ac os yw'r Saesneg wedi arddel y label 'sant' ar y mynach wrth enwi'r lle, St Davids, mae'r 's' enidol yma hefyd rywsut yn ein tynnu ni at ei dŷ. Yn nheitl awdl Waldo Williams, y gwaith sy'n agor *Dail Pren*, cedwir sillafiad y lle hwn fel dau enw, Tŷ Ddewi.¹ Mae'r ystyr yn ddiawms felly, ac o ganlyniad i'r rhaniad, y gair 'tŷ' yw gair cyntaf y casgliad cyfan, a chyfeiriodd llawer un eisoes at arwyddocâd 'y tŷ' yng ngwaith Waldo yn gyffredinol. Yn ei erthygl 'Waldo ac Apocalyps', mae Tony Bianchi yn dwyn i gof ddeongliadau Bobi Jones a Saunders Lewis o arwyddocâd symbolaeth y tŷ, y naill yn benodol yng nghyd-destun gwaith Waldo Williams a'r llall mewn cyd-destun ehangach:

Ac fel y sylwodd Bobi Jones simbol y tŷ sydd yn gosod gweledigaeth gymdeithasol y bardd yn gadarn o fewn cyd-destun y traddodiad clasur-ol Cymraeg. Fel y dywedodd Saunders Lewis wrth gyfeirio at ddefnydd Dafydd Nanmor o'r ddelwedd, mae'r tŷ 'yn air cyfrin – yn un o dermau mawr gwareiddiad – mewn tŷ gellid "cadw" pethau a'r gallu hwn i gadw yw hanfod gwareiddiad'.²

Er bod yr awdl yn cyfeirio mewn rhai manau at feini llythrennol yr adeilad, ni ellir gwadu nad yw hefyd yn defnyddio'r tŷ fel saernïaeth symbolaidd. Yn yr ail ganiad, os gwelir 'colofnau' ac 'urddas y gangell' ar y naill law, a 'hen fasiwn' a 'seiri hoff' wrth eu gwaith ar y llall, clywir hefyd yn yr un caniad draethydd y gerdd yn dweud mai 'muriâu heddwch fydd am fy mreuddwyd'. Dyma ddangos yn glir rym trosiadol byd adeiladau yng ngwaith Waldo y bydd yr erthygl hon yn ei archwilio. Drwy gydol yr awdl, nid oes pall ar y ddelweddau sy'n pwysleisio bod rhywbeth amgenach na phren a cherrig yn creu'r tŷ hwn, tŷ sydd wedi'r cyfan yn gartref i Dewi, i Grist ac i Dduw. 'Ysol dân yw sêl Ei dŷ' meddir, gyda phrif lythrennol i'r





rhagenw; ‘a phrins ymadroddi ffraeth’ yw’r ‘neuadd i’r gwmniaeth’, sy’n sylwedd mor wahanol i’r cufyddau o goed acasia a’r dolennau aur a’r llenni a restrir wrth egluro gwneuthuriad tabernaclau’r Hen Destament (e.e. yn Exodus 25). Buan y deallwn nad oes modd cyfyngu’r adeilad a ddisgrifir gan Waldo i unrhyw ‘du mewn’, ac fe’i gwelwn yn ymestyn i ehangder byd natur y tu allan, ‘A maith ei hallor a gwyrdd ei lloriau’. Ceir cyfeiriadau at y tŷ diriaethol, ond prin ydynt. Gwelir un, er enghraifft, yn y caniad olaf yn y cwpled ‘Hŷn na’i dŷ awen Dewi / A hwy ei saerniaeth hi’, gyda’r ergyd yn dangos bod ysbryd y sant yn tarddu o gyfnod cyn y codwyd yr eglwys, a’i fod yn gorchuddio darn o dir tipyn mwy na Glyn Rhosyn. O ddarllen ymlaen gwelwn fod yr ysbryd, neu’n gywirach yr awen hon, i’w chael ‘yn y galon’ a’i bod yn ymestyn ‘trwy’r ddaear helaeth’. Yna, erbyn y pennill clo, tŷ cyfan gwbl symbolaidd a geir, gyda’r bardd yn mabwysiadu’r cysyniad a welir sawl gwaith yn y Testament Newydd wrth iddo ddeisyf ar i ‘gymwynas Dewi’ roi i ni ‘yr hen addaw / A thŷ llwyth nid o waith llaw’. Cymharer, er enghraifft, ag ail lythyr Paul at y Corinthiaid 5:2, ‘Gwyddom, os tynnir i lawr y babell ddaearol hon yr ydym yn byw ynddi, fod gennym adeilad oddi wrth Dduw, tŷ nad yw o waith llaw, sydd yn dragwyddol yn y nefoedd.’³

Dylid craffu fodd bynnag ar yr ychwanegiad sydd gan Waldo at yr adnod a’r modd y mae’n estyn at y gair ‘llwyth’; gwneir hynny er mwyn cwblhau’r gynghanedd, ond tybiaf yn bwysicach na hynny, er mwyn manteisio ar y cyfle i roi ffocws ar y teulu. Nid unrhyw dŷ mo’r cartref ysbrydol hwn, ond tŷ’r ‘llwyth’, a chawn ein hatgoffa o’r modd y mae’r ddau air, ‘tŷ’ a ‘llwyth’, yn rhoi ‘tylwyth’ i ni, sef y ‘teulu’ – un arall o eiriau pwysig gwaith Waldo. (Cofiw’n mai tebyg yw ystyr gwreiddiol ‘teulu’ a ‘tylwyth’, gyda tharddiad ‘teulu’ yn y ddau air ‘tŷ’ a ‘llu’.⁴)

Soniwyd eisoes fod nifer o feirniaid wedi tynnu sylw at arwyddocâd y tŷ yng ngwaith y bardd. Yn y rhaglen ‘Peacemaker’ ar gyfer y gyfres deledu *On Show*, BBC Wales yn 2005, adeg canmlwyddiant geni’r bardd, wrth restru’r hyn yr ystyria ef yw delweddu canolog gwaith Waldo, enwodd Dafydd Elis Thomas y tŷ fel y cyntaf ohonynt.⁵ (Ei restr ar ei hyd yw ‘house, gap, root, tree, field’, ac er y byddai gan lawer restr wahanol, mae’n debyg y byddai ‘tŷ’ ar restr y rhan fwyaf.⁶) Yn 2013, cysylltodd Diarmait Mac Giolla Chrïost y ddelwedd yn uniongyrchol â





Chymru gan ddatgan: ‘The notion of Wales as a house is an obvious theme in Waldo’s poetry, clearly stated in “Yn y Tŷ” with its line “Yn y tŷ mae Gwlad”.’⁷ Ac â yn ei flaen i nodi sylwadau J. E. Caerwyn Williams ac, fel Bianchi uchod, y gymhariaeth â Saunders Lewis.⁸ Ond efallai mai’r diweddaraf i graffu ar rôl ganolog y tŷ yng ngwaith Waldo yw Ieuan Wyn. Yn ei ddarlith afaelgar i Gymdeithas Waldo yn Llangernyw, 30 Medi 2016, wedi dyfynnu’r adnod o’r Corinthiaid, â yn ei flaen i ddatgan bod y ‘tŷ’ yn gyfystyr â’r ‘dimensiwn ysbrydol’ yng ngwaith Waldo ac yn ‘treiddio’ ei farddoniaeth.⁹ Dyfynna’r cyfeiriadau at y tŷ yn yr awdl, yn ‘Geneth Ifanc’, ‘Cymru a’r Gymraeg’, ‘Oherwydd ein Dyfod’, ‘Bydd Ateb’, ‘Pa Beth yw Dyn?’ a ‘Cwmwl Haf’.¹⁰ Mae’n briodol ei fod yn hepgor y cyfeiriad at y tŷ yn y cywydd swynol ‘Byd yr Aderyn Bach’¹¹ oherwydd nid yw’n perthyn i’r un maes symbolaidd â’r lleill, ond pe byddai wedi dymuno, gallasai fod wedi ychwanegu ‘Yn y Tŷ’, ‘Y Tŵr a’r Graig’, ‘Tri Bardd o Sais a Lloegr’ ac ‘Almaenes’.¹²

O graffu ar y tŷ yn rhai o’r esiamplau hyn, er enghraifft, yn ‘Geneth Ifanc’ lle mae sôn am ‘y tŷ anweledig a diamser’, neu yn ‘Pa Beth yw Dyn?’ lle atebir y cwestiwn ‘Beth yw gwladgarwch?’ gyda’r esboniad ‘Cadw tŷ / Mewn cwmwl tystion’, neu yn ‘Cwmwl Haf’ lle dywedir mai ‘Caredigrwydd oedd y tŷ’, nodwn ddau beth trawiadol. Yn gyntaf, yn gwbl groes i’n canfyddiad arferol ni o’r tŷ fel adeilad cyffyrddadwy a diriaethol sy’n amddiffyn ei drigolion drwy eu cyfyngu y tu mewn iddo, mae’r tai hyn yn anghyffwrdd, anweladwy hyd yn oed, ac y maent fel pe baent yn amddiffyn eu trigolion drwy eu rhyddhau tuag allan. Yn ail, gwelwn fod y tŷ yn gyfystyr â rhinwedd haniaethol (caredigrwydd) sydd hefyd â’i gogwydd tuag allan; hanfod caredigrwydd wedi’r cyfan yw estyn allan at ‘y llall’. Synhwyrwn eisoes felly mai rhyw dai ‘tu-fewn-tu-fas’ yw anheddau Waldo, a soniais eisoes am y demtasiwn i labelu Waldo fel ‘y bardd tu chwith allan’.¹³ Bryd hynny, trafodwyd sut y gellir gweld mewn manau’r un themâu yng nghyfraniadau Waldo i’r casgliad *Cerddi i Blant* ag sydd yn *Dail Pren*, a thynnwyd sylw arbennig i’r tu-fewn-tu-fasrwydd gogleisiol ond bwriadol a geir mewn cerddi megis ‘Chwarae’ a ‘Gweithio’.¹⁴

Mae Hugh Bevan hefyd yn tynnu sylw at rôl y byd ‘y tu allan’ yng ngwaith Waldo yn ei gyfraniad i’r gyfrol *Waldo Williams* yng Nghyfres y Meistri, dan y teitl urddasol: ‘Barddoniaeth y Cae Agored’.¹⁵ Egyr ei





fyfyrdod ag ychydig sylwadau ar waith yr athronydd o Awstriad a'r Iddew, Martin Buber, gan esbonio:

Awgryma Martin Buber yn ei lyfr *Between Man and Man* y gellir rhannu hanes dyn yn gyfnodau o ddau fath, sef cyfnodau o ymgartrefu a chyfnodau digartref. Yn y cyntaf, y mae dyn yn byw yn y byd megis mewn tŷ, megis mewn cartref; yn yr ail, y mae'n byw yn y byd megis mewn cae agored. Yng nghyfnodau'r ymgartrefu, rhan o hanes y byd yw hanes dyn; eithr pan fod dyn yn ddigartref, y mae i'w hanes ddyfnder ynddo'i hunan. Barddoniaeth un o'r cyfnodau digartref yw *Dail Pren*. Lladmerydd y byw mewn cae agored yw Waldo Williams.¹⁶

Cawn ddychwelyd at Buber yn y man, oherwydd credaf fod elfen arall yn ei athroniaeth sydd hyd yn oed yn fwy arwyddocaol wrth ddarllen gwaith Waldo, a dyma fydd un o brif bwyntiau'r drafodaeth hon. Am y tro, oedwn gyda'r gair 'digartref'. Gellir gweld sut y mae meddyliau Buber yn arwain Hugh Bevan at y casgliad mai bardd un o'r cyfnodau 'digartref' yw Waldo, am fod hynny'n gymorth i ddechrau deall beth yw'r 'tŷ-nad-yw'n-dŷ' sy'n ymddangos mor aml yn ei waith. Rhaid gochel fan hyn wrth gwrs rhag y tueddiad i gysylltu 'digartrefedd' â rhywbeth truenus, oherwydd nid oes unrhyw elfen 'druenus' ynghylch 'digartrefedd' Waldo (na Buber o ran hynny). Y pwynt gan Waldo yw *bod* cartref ond ei fod yn ddi-adeilad, neu heb fod wedi ei gyfyngu oddi mewn i ffiniau adeilad cyffredin; fe'i gwnaethpwyd yn hytrach o ddeunyddiau gwahanol i'r arfer, deunyddiau ehangach, haniaethol.

Mae'r diogelwch yr ydym yn tueddu ei gysylltu â muriau a drws a chlo, ac ati, yn cael ei ddisodli gan ddiogelwch cwbl wahanol, a hynny oherwydd bod y cartref mewn lle cwbl wahanol. Fel y gwelwyd eisoes, hwn yw'r tŷ sydd yn y 'cwmwl tystion', y tŷ nad yw o 'waith llaw', y tŷ sy'n garedigrwydd ac sydd 'allan ymhob tywydd', a chofiwn fod Waldo'n datgan mai 'Ym mhob tywydd diogelwch oedd y tywydd.'¹⁷ Ni ellir gwadu nad oes gan Waldo'r *Dail Pren* gartref, eithr nid cartref cul mohono; nid cartref sy'n gwneud hanes dyn yn ddim byd mwy na rhan o hanes y byd, ond yn hytrach, cartref ydyw sy'n caniatáu dyfnder hanes dyn ynddo ef ei hunan, ac yn bwysicach, fel y gwelwn yn y man, yn ei berthynas ag eraill.





Fodd bynnag, nid tŷ yw'r unig annedd yn *Dail Pren*, a chyn troi at brif ddi-ddordeb yr erthygl hon ac edrych ar fanylion pensaernïol adeiladau Waldo wrth gipio ymhellach ar rannau o waith Buber, mae'n werth bwrw golwg ar y strwythurau eraill lle mae trigolion byd Waldo'n byw.

Ochr yn ochr â'r tŷ, os yw Waldo'n cofio am yr 'anheddau bychain', felly hefyd 'y neuaddau mawr'; yn ei gerddi ceir palas a llys, caban ac ogof, caer a phabell, carchar a thŵr i enwi ond rhai.¹⁸ Gwelir y palas yn 'Preseli': 'Mi welais drefn yn fy mhalas draw', a hefyd yn 'Gyfaill, Mi'th Gofiaf': 'Palas y pelydr'.¹⁹ Ceir caban yn 'Eu Cyfrinach': 'Cyfrinach y teulu oedd eu caban, / Ac yn eu cyfrinach, cyfrinach Duw'.²⁰ Mae pabell yn ymddangos yn 'Byd yr Aderyn Bach': 'Pawb wrth eu bodd mewn pabell', yn 'Yr Hen Fardd Gwlad': 'wth gortynnau'r babell eang', ac yn 'Gŵyl Ddewi': 'Tra-gwyddol bebyll Mamon'.²¹ Yn y gerdd heb deitl cyfeirir at 'caer': 'Ond yn yr isel gaer, mae gwiwer gwynfyd / heno yn gwneud eu gwâl', ac yn 'Diwedd Bro' cyfosodir caer a chell: 'Nid oedd na chaer na chell'.²² Yn 'Gwanwyn' mae sôn am garchar: 'Carchar braw',²³ a chawn y llys yn y cywydd arbennig i fam y bardd, 'Angharad': 'I'w phyrth deuai'r trafferthus / A gwyddai'r llesg ddôr ei llys'.²⁴ Ar y cyfan, nid yw'r anheddau hyn yn cynnig yr un statws symbolaidd yn hollol â'r 'tŷ', ar wahân o bosib i'r un a erys, sef 'ogof'. Gwelir hwn yn er enghraifft 'Ar Weun Cas' Mael': 'Cod ni i fro'r awelon pur / O'n hogofâu', yn 'Oherwydd ein Dyfod': 'yn yr ogof ddiamser yr oedd', yn 'Cwmwl Haf': 'Yn yr ogof sy'n oleuach na'r awyr', ac yn 'Plentyn y Ddaear': 'O ogofâu'r nos';²⁵ a heb os, mae testun trafodaeth ddifyr yn y gymhariaeth rhwng arwyddocâd y strwythurau hyn ac arwyddocâd y 'tŷ'.

Am y tro, rhaid bodloni ar eu nodi'n unig, oherwydd y bwriad drwy hyn yw cadarnhau pa mor aml y mae Waldo'n troi at faes adeiladu i gyfleu ei syniadau. Yna, nodwn y tu hwnt i siâp a ffurf yr adeilad, o'r palas i'r gell, y modd y mae hefyd yn gosod ger bron y darllenwyr fanylion yr adeiladwaith. Nodais rai o'r rhain mewn cyhoeddiad cynharach, a nododd Ieuan Wyn y sôn aml sydd gan Waldo am y 'mur' a'r 'llawr', y 'cyntedd' a'r 'neuadd' yn ei ddarlith yntau, gan eu gweld 'yn cyfeirio'n drosiadol at adeiladwaith anweledig y dimensiwn ysbrydol y mae cymdeithas ddelfrydol y weledigaeth yn gorwedd o'i mewn'.²⁶ Ac os yw'r tŷ yng ngwaith Waldo yn un od yn ei 'du-fewn-du-fasrwydd', buan y gwelwn fod dimensiynau





eithriadol yn perthyn i'r manylion hefyd. Nid oes dim byd cyffredin yn strwythur y 'parlwr', 'ffenest', 'mur' na 'phyrth', 'post iet', 'trothwy' na 'drws cefn' i enwi ond rhai. Beth, er enghraifft, yw 'cyntedd maith' y bod dynol?²⁷ Sut all 'neuadd fawr' fodoli rhwng 'cyfyng furiau'?²⁸ Mae syniadau fel hyn yn gwneud i'r penseiri cyfoes mwyaf cyffrous ymddangos yn gonfensiynol a diddychymyg. A phwy yw'r adeiladwyr sydd wrthi'n codi'r strwythurau hyn? Nid rhai cyffredin mohonynt hwythau chwaith. Mae'r tŷ, meddai Waldo â'i 'lawr a'i bileri' o 'deir waith cymrodyr di-ri'.²⁹ Cymrodyr. Dyma yw'r masiynau a'r seiri, y plastrwyr a'r plymwyr a'r gofaint. A bydd cyfle i ddychwelyd at arwyddocâd hyn cyn cau pen y mwdwl.

Efallai mai'r lle gorau i ddechrau'r daith o gwmpas manylion pensaerniaeth Waldo yw'r gerdd 'Pa Beth yw Dyn?'.³⁰ Mae Alan Llwyd yn olrhain dylanwad 'Cui Bono', Thomas Carlyle ar batrwm y gerdd hon, a gwelir ei fod yn llygad ei le wrth edrych yn arbennig ar ail a thrydydd pennill cerdd Carlyle:

What is Life? A thawing iceboard
 On a sea with sunny shore;
 Gay we sail; it melts beneath us;
 We are sunk, and seen no more.
 [. . .]
 What is Man? A foolish baby,
 Vainly strives, and fights, and frets;
 Demanding all, deserving nothing:
 One small grave is what he gets.³¹

Ond os oes tebygrwydd yn y ffurf a'r cwestiynau, ni ellir llai na sylwi mor wahanol yw'r weledigaeth a'r ddelweddaeth. Ymhob pennill yng ngherdd Waldo cyflwynir elfennau a fyddai'n gyfarwydd iawn i unrhyw un sy'n ymwneud â byd y pensaer. Nid oes arlliw o hyn yn 'Cui Bono'. Ceir gan Waldo sôn am strwythurau: 'neuadd', 'tŷ' a 'muriâu'; am gynllunwaith: 'tref' a 'theyrnas'; am is adeiladwaith: 'ffordd'; am offer: 'cyllyll'; am ddeunyddiau: 'coed' ac am beirianeg y 'cylch'.³² Mae Waldo'n diriaethu, neu o ddefnyddio'r gair sydd ganddo yn amryw o'i gerddi (e.e. 'Mewn





Dau Gae³³), yn ‘dirhau’ ei weledigaeth a’i athroniaeth drwy ddefnyddio byd y pensaer, a beth allasai fod yn fwy diriaethol, yn fwy congrid na hynny?³⁴ Pwy all osgoi sylwi hefyd ar y gwahaniaeth trawiadol rhwng ‘one small grave’ Carlyle a ‘neuadd fawr’ Waldo, er bod ei muriau’n gyfyng?

Cyn craffu ymhellach ar fanylion pensaernïol cerddi *Dail Pren* fodd bynnag, oedwn i droi yn ôl at Martin Buber. Adwaenir ei gyfres o ddarlithoedd enwog gan y teitl *Ich und Du*, ac o’i drosi gellid cynnig ‘Myfi a Thydi’ (neu hefyd ‘Fi a Thi’, oherwydd nid oes o reidrwydd unrhyw bwyslais arbennig ar y rhagenwau fan hyn).³⁵ Yn y gyfres, heria Buber athronwyr fel Kant a Hegel; sonia fod yr holi dirfodol a ddaw ar ryw adeg neu’i gilydd i ran unrhyw un sydd a chanddo feddwl (sef yr holi a grisialir yn y cwestiwn ‘beth yw dyn?’) yn dechrau fel arfer mewn unigrwydd. Cyn dod at yr ateb (sef dod i wybod pwy ydyw ‘go iawn’, neu mewn geiriau eraill, ddod at yr adnabod hanfodol), mae’n rhaid goresgyn unigrwydd a’r holl syniad o ddirnad ‘gwybod’ fel realiti sy’n seiliedig ar unigrwydd (sef ar yr hunan sydd ar ei ben ei hunan), a dod yn hytrach at y syniad o ddyn yng nghymdeithas ei gyd-ddyn.

Mae Buber yn dadlau yn erbyn y modd y mae Hegel, yn ei dyb ef, yn bychanu ac yn diraddio dyn a’i gymuned, dyn a’i gymdeithas, drwy ffafrio Rheswm Cyfanfydol, a mynnu gosod y gwybod perffaith, y deall perffaith, yr adnabod hanfodol, mewn *amser* yn hytrach na *gofod*; a bod yn fanwl, gosod y cyrraedd at y deall perffaith yn y dyfodol, sef yr amser a ddaw. Er y gallwn feddwl am y dyfodol hwn, dadl Buber yw na allwn mo’i ddychmygu’n llawn am na allwn ei fyw. Felly, yn hytrach, mae Buber yn gosod yr ‘adnabod hanfodol’ (sef yr hyn sy’n cwmpasu deall, dirnad a gwybod yr ateb i gwestiynau megis ‘pa beth yw dyn?’ neu ‘beth yw byw?’) ym mhresennol y berthynas rhwng pobl a’i gilydd. Mae’r gair ‘rhwng’ yn arwyddocaol, ac felly hefyd i raddau llai ‘presennol’. Gwelir arwyddocâd yr arddodiad ‘rhwng’ yn y modd y cyflwynodd Buber ei gasgliad o draethodau yn Saesneg dan y teitl *Between Man and Man*.³⁶ Felly, o ailadrodd y pwynt: mae Buber yn gosod yr ‘adnabod’ (sef y gallu i wybod, deall a dirnad yr ateb i’r cwestiwn ‘pa beth yw dyn?’) yn y berthynas *rhwng* pobl a’i gilydd.

Drwy oresgyn ein hunigrwydd, sy’n tueddu i bendilio rhwng dirnad yr un hunan unigol (yr un bod dynol) ar goll yn y cymundod (collective), neu’r cymundod ar goll yn yr hunan (sef yr hyn a adwaenir fel cyfriniaeth





solipsaidd, hunanystyriol), mae'n rhaid sylweddoli nad ydym ond yn 'gwir fodoli' ym mhresenoldeb pob hunan arall, sef y lleill, ac nad yw ein 'hunan' ni yn rhan o realiti oni bai ei fod yn bodoli 'mewn perthynas' â rhywun arall, un neu fwy o'r lleill; neu o'i roi yn llythrennol, oni bai fod ein hunan ni 'yn berthnasol' (i'r arall/eraill, i'r llall/lleill) nid ydym yn bodoli. Felly, yn wahanol i'r atebion athronyddol arferol i'r cwestiwn 'pa beth yw dyn?' sy'n canolbwyntio ar reswm, hunanymwybyddiaeth, ewylllys rydd ac ati, mae Buber yn dadlau mai'r unig hunan a all ateb y cwestiwn yw'r hunan sy'n wynebu rhyw hunan arall. Dan yr amgylchiadau hyn, felly, mae'r cartref dynol, neu gartref yr hunan, wedi ei adeiladu o berthnasau.

Pwy oedd Martin Buber? Fe'i ganed yn 1878 yn Fiena a bu farw yn 1965 yn Israel. Mae'n fwyaf enwog am ei waith ar athroniaeth y ddeialog, yn benodol y gwahaniaeth rhwng y berthynas Ich-Du (person cyntaf unigol, fi, a'r ail berson, ti), a'r berthynas Ich-Es (person cyntaf unigol, fi, a'r trydydd person, y peth arall). (Er bod y Gymraeg ar ei hennill gan fod modd mynegi'r ail berson unigol cyfarwydd 'ti' sy'n cyfateb yn union i'r Almaeneg 'Du', yn hytrach na'r 'you' llai eglur a geir yn Saesneg, mae ar ei cholled am nad oes modd mynegi'r trydydd person unigol di-ryw, 'it' sy'n cyfateb i'r Almaeneg 'es'; dyna yw'r ymgais uchod gyda'r ymadrodd 'y peth arall'.) Cred rhai ei bod hi'n arwyddocaol fod rhieni Buber wedi gwahanu pan oedd yn blentyn bach a'i fod wedi cael ei fagu er yn dair oed gan ei dad-cu, gan honni bod modd olrhain ei athroniaeth yn ôl at y cwest o chwilio am ei fam, sef 'y llall cariadus'.

Daeth Buber yn athro er anrhydedd ym Mhrifysgol Frankfurt am Main yn 1930, ond wedi i Hitler ddod i rym yn 1933 ymddiswyddodd gan adael yr Almaen yn 1938 a chael swydd fel athro anthropoleg a chymdeithaseg ym mhrifysgol Hebrëig Jerwsalem. Barn rhai yw ei fod wedi cael caniatâd cyhoeddi ei ysgrifau pan oedd yn gweithio yn yr Almaen am nad oedd yr awdurdodau yn eu deall; wedi'r cyfan traethodau oeddynt a heriai dotalitariaeth. O'n rhan ni yng Nghymru, diddorol nodi mai Martin Buber fu'n gyfrifol am drosiad cynnar o'r Mabinogion i'r Almaeneg *Die vier Zweige des Mabinogi, ein keltisches Sagenbuch*, (gan dynnu blewyn bach o drwyn Matthew Arnold yn y rhagymadrodd i'r gyfrol).³⁷

Egyr *Ich und Du* gyda'r canfyddiad sylfaenol bod y byd i'r bod dynol yn ddeublyg a bod yr agwedd ddeublyg hon yn dod o ddeublygrwydd





'geiriau cysefin' dyn. Â yn ei flaen i esbonio nad geiriau unigol mo'r geiriau cysefin hyn, ond parau o eiriau. Y naill o'r geiriau cysefin yw'r pâr 'Ich-Du', a'r llall yw'r pâr 'Ich-Es' (gweler uchod). Yn ôl Buber, ein 'bod' ni sy'n mynegi'r geiriau cysefin, ac ymhelaetha drwy ddweud nad yw hi'n bosib i'r gair cysefin 'fi-ti/myfi-tydi' gael ei fynegi ond â'n holl fod.³⁸ Noder mai'r gair cysefin 'Ich-Es', (neu wrth gyfeirio at y trydydd person, boed wryw, benyw neu ddiryw), rydym yn *profi*'r byd, ond gyda'r gair cysefin 'Ich-Du' (wrth gyfeirio at yr ail berson), rydym yn *sefydlu* byd o berthynas; neu o'i roi yn yr Almaeneg gwreiddiol: 'Die Welt als Erfahrung gehört dem Grundwort Ich-Es zu. Das Grundwort Ich-Du stiftet die Welt der Beziehung.'³⁹ Nid yw dyn yn rhan o'r byd drwy brofiad. Daw dyn yn rhan o'r byd drwy berthynas. Dyna'r pwynt sylfaenol.

Gan barhau â'r syniadaeth hon, un o'r datganiadau sy'n distyllu ei athroniaeth yw'r frawddeg 'Alles wirkliche Leben ist Begegnung',⁴⁰ ac mae'r cyfieithu yma hefyd yn heriol. Gellid cynnig mai ystyr y frawddeg yw: 'cyfarfod yw pob gwir fyw' neu 'cyfarfod yw pob gwir fywyd', ac yn y Saesneg gwelir yn aml y cyfosodiad digon twt 'existence is encounter' wrth drafod y syniadaeth sydd wrth wraidd y datganiad.⁴¹ Fodd bynnag, ym mhob un o'r ymgeision nid yw'r arddodiad sy'n cuddio yn y gair 'Begegnung' ('Alles wirkliche Leben ist *Begegnung*') i'w glywed mor amlwg. Ystyr 'Begegnung' yw 'cyfarfod' neu 'encounter' Daw'r enw o'r ferf 'begegnen', sydd yn ei dro yn deillio o'r arddodiad 'gegen' sy'n golygu 'yn erbyn' ond hefyd 'wyneb yn wyneb'. Felly ystyr 'begegnen' yw 'dod yn erbyn rhywun/rhywbeth', neu 'ddod wyneb yn wyneb â rhywun/rhywbeth'. Nid oes awgrym, wrth reswm, o 'wrthwynebu' rhywbeth ond yn hytrach o 'ddod gyferbyn â rhywun/rhywbeth', neu 'ddod tuag at rywun/rywbeth'. Mae'r ferf Gymraeg 'cyfarfod' (*cyd+ar-+bod*⁴²) yn cyfleu hyn yn burion, tra bod yr 'encounter' sy'n deillio o 'counter' yn nes at yr ystyr 'yn erbyn' sydd, fel gwelwyd uchod, hefyd yn llechu yn 'begegnen'. Yr hyn sydd yn llwyr ar goll o'r Gymraeg fel y Saesneg yw'r cysylltiad pellach sy'n celu yn 'begegnen' â'r gair Almaeneg am y presennol, 'Gegenwart', lle gwelir eto'r arddodiad 'gegen'. Fel cynifer o eiriau'r Almaeneg, gair cyfansawdd yw 'Gegenwart' sy'n clymu 'gegen' a 'wart'. Ystyr lythrennol 'Gegenwart' felly yw'r hyn yr ydym yn dod wyneb yn wyneb ag ef, neu'r hyn sy'n dod wyneb yn wyneb â ni.





I Buber, felly, yr unig wir fyw yw bod yn y presennol, wyneb yn wyneb â'r llall; gwir fyw yw bod ym mhresenoldeb y llall, gwir fyw yw dod wyneb yn wyneb â'r llall, gwir fyw yw'r cyfarfod rhwng yr hunan â'r llall. Y cyfarfod hwn sy'n rhoi ystyr i'n bod. Yn y cyfarfod, mae'r hunan yn ymestyn allan o'i hun tuag at y llall. (Ac o dderbyn y gall yr 'ar fod' yn 'cyfarfod' ddod o 'arfod' sef 'taro' neu 'ergydio', gan felly gynnwys elfen o gyffwrdd, gwelwn ei fod yn drosiad pur effeithiol.⁴³)

Un o'r esiamplau amlycaf o'r 'cyfarfod' hwn yn *Dail Pren* yw'r un a bortreadir yn y gerdd bwerus, 'Cyfeillach'.⁴⁴ Lluniodd Waldo'r gerdd wedi clywed am y milwr a gafodd ddirwy yn ystod yr Ail Ryfel Byd am roi rhuban i ferch fach o'r Almaen ar ddydd Nadolig. Yma, mae'r hunan yn ymestyn allan at y llall drwy gyfrwng y 'goleuni pur':

Ni thycia eu deddfau a'u dur
I rannu'r hen deulu am byth,
Cans saetha'r goleuni pur
O lygad i lygad yn syth.

Disgrifir y gallu hwn i gysylltu â'n gilydd ar ddiwedd y pennill cyntaf fel yr 'anfarwol nwyd'. Dyma ein gallu i gydymdeimlo, ac mae Emyr Llywelyn yn olrhain gwyddoniaeth y gallu hwn, gan ddisgrifio darganfod y drychniwronau a elwir gan rai ym maes gwyddoniaeth fel 'niwronau cydymdeimlad'.⁴⁵ Dyma'r niwronau sy'n caniatáu inni ymgorffori yn ein meddyliau brofiadau pobl eraill. Yn debyg i Buber, â'r erthygl yn ei blaen i gasglu mai uned 'sylfaenol ein bodolaeth felly yw nid yr hunan, ond "fi ac eraill"⁴⁶. Ac os yw trosi 'begegnen' yr Almaeneg yn heriol, felly hefyd yw'r ymgais i drosi gwahanol haenau'r ferf Gymraeg, 'cydymdeimlo', i ieithoedd eraill. Yn Saesneg, er enghraifft, byddai'n rhaid chwilio am o leiaf dri gair er mwyn ei gyfleu'n llawn. Mae'r 'cyd' yn awgrymu 'sympathise', yr 'ym' yn awgrymu 'empathise', a'r 'cyd-deimlo' yn awgrymu 'to feel compassion', a'r cwbl yn un weithred yn y Gymraeg.

Mae'n briodol bod Emyr Llywelyn yn gosod ar ddechrau ei erthygl gwpled agoriadol y gerdd 'Brawdoliaeth', ac mae Pennar Davies yn cydio yn y gerdd hon wrth iddo yntau gyfeirio at y cysylltiad rhwng meddylfryd rhai o athronwyr Ewrop a Waldo, yn eu plith 'Unamuno, Berdiaief [*sic*],





Buber ac Ortega y Gasset'.⁴⁷ Dywed: 'Nid oes gennym reswm i gredu i Waldo Williams astudio'r rhain yn gyfundrefnus ond y mae'n debyg i deitl enwocaf Buber, "Ich und Du", ysbrydoli'r defnydd o'r rhagenwau personol yn y gerdd "Brawdoliaeth".'⁴⁸ Cofiw'n am y modd yr ailadroddir 'Myfi, Tydi, Efe' yn y gerdd.⁴⁹ Mae W. John Morgan yn ei erthygl 'Peace Profile: Waldo Williams' wrth restru rhai o'r meddylwyr y mae Waldo'n rhannu eu syniadau â hwy hefyd yn enwi Martin Buber.⁵⁰ Ond ar wahân i'r esiamplau a nodwyd eisoes, sef Pennar Davies, Hugh Bevan, Diarmait Mac Giolla Chroist a hefyd Bobi Jones (sy'n cyfeirio at Buber eto yng nghyd-destun 'Brawdoliaeth'⁵¹) a Robert Rhys (sy'n dyfynnu Pennar Davies⁵²), nid oes fawr o sôn am Buber gan feirniaid wrth drafod Waldo, gyda dylanwad Berdyaev arno wedi hawlio'r sylw bron i gyd. O ystyried pa mor ganolog yw'r syniad o gyfannu i Waldo, sef yr hyn a fynegir i bob pwrpas gan Buber, gobeithio y daw cyfle yn y dyfodol i ddarllenwyr Waldo graffu ymhellach ar y cydweddu sydd rhwng Waldo a Buber a hynny ymhell y tu hwnt i'r gerdd 'Brawdoliaeth'.

O ddychwelyd at bensaerniaeth yng ngwaith Waldo, gwelwn yn fuan mai manylion yr adeiladwaith sy'n mynd â bryd y bardd yw'r darnau hynny a rydd gyfle i'r trigolion estyn at ei gilydd a chyfarfod. Dyma gyflwyno'r syniad mai 'Pensaer y Cydymdeimlo' yw Waldo Williams. Ceir sôn am y 'trothwy', y 'fffenest', y 'porth, y 'drws' a'r 'cyntedd', sef yr union elfennau sy'n creu cyswllt rhwng y tu fewn a'r tu allan, rhwng y fi a'r ti. Gwelwn, pan fo rhwydd hynt i'r cyswllt hwn, fod popeth yn dda, ond y try'r darlun yn hunllef pan fo'r cyswllt yn cael ei rwystro.

Beth am y ffenest, darn o'r adeilad sy'n gadael i'r tu fewn gwrdd â'r tu fas? Bydd y darlennydd yn cofio sut y mae Waldo'n cymharu ardal y Preseli â ffenest, gan ddatgan: 'Hon oedd fy ffenestr, y cynaeafu a'r cneifio' cyn mynd ymlaen i ddweud, 'Mi welais drefn yn fy mhalas draw' a thrwy hynny awgrymu bod popeth yn dda.⁵³ Ond fe'n rhybuddia ni wedyn o'r peth erchyll a allai ddigwydd, sef gweld bro'r Preseli yng ngogledd sir Benfro yn troi i fod fel Castell Martin yn ne'r sir, a'i meddiannu gan y milwyr. A'r modd y mae'n cyfleu hyn yw drwy dynnu'r ffenest o'r darlun er mwyn portreadu byd sy'n cyferbynnu'n llwyr â byd trefn ei balas. Byd yw hwn lle nad oes cyfathrebu rhwng dyn a dyn, rhwng y tu fewn a'r tu fas: 'Mae rhu, mae rhaib drwy'r fforest ddiffffenestr', meddai.⁵⁴ Yn yr un





modd, *crescendo* hunllef pennill cyntaf ‘O Bridd’ yw’r darn lle mae hyd yn oed y fam yn gwawdio ei phlant a hynny, yn greulon o fwriadol, ‘trwy’r ffenestr’.⁵⁵ Mor wahanol yw’r darlun hwn i’r nodyn gobeithiol a geir ar ddiwedd ‘Yr Heniaith’, lle mae sôn am godi’r meini ac am weld urddas yr iaith ‘trwy niwl ei hadfyd’ gan ofyn ‘Pwy yw’r rhain trwy’r cwmwl a’r haul yn hedfan / Yn dyfod fel colomennod i’w ffenestri?’⁵⁶

Ystyrier yn ogystal ‘Daw’r Wennol yn ôl i’w Nyth’, a’r modd y mae Waldo’n defnyddio delwedd y trothwy i gyfleu ei ymateb i hunllef gweld dolydd Castell Martin yn troi’n faes ymarfer milwyr. Dengys fod y cyfathrebu rhwng dyn a dyn wedi ei atal: ‘Tewi’r iaith ar y trothwy / A miri’r plant, marw yw’r plwy.’⁵⁷ Cyfeiriwyd eisoes yn y rhestr o aneddau at y llys a gawn mewn cwpled yng nghywydd Waldo i’w fam, Angharad: ‘I’w phyrth deuai’r trafferthus / A gwyddai’r llesg ddôr ei llys.’⁵⁸ Sylwer yma, sut y mae’n gosod ei fam – y gymwynaswraig garedig, drugarog – yn y porth a thrachefn yn y drws, sef yr union fannau lle mae’r traffig dynol o’r tu fewn/y tu fas yn cwrdd â’i gilydd. Drwy’r ddyfais hon, gwelir sut y gall yr anghenus gyrraedd Angharad a hithau eu cyrraedd hwythau, a thrwy’r cyfarfyddiad hwn, sut y gall hi weithredu drostynt a gyda nhw: ‘Gŵn sgarlad Angharad oedd / Hyd ei thraed o weithredoedd.’⁵⁹

Mae’r drws rhyfeddol hwn, sef drws cyd-ddyn, drws dewrder tosturi, i’w weld yn ‘Eneidfawr’, lle dywedir am Gandhi, ‘Ei dosturi ef a’i casglodd a’i ddewrder ydoedd y ddôr.’⁶⁰ Yn yr un modd gwelir y drws hwn, drws cydymdeimlad yn cynnig achubiaeth dan yr amodau mwyaf erchyll yn ‘Dan y Dyfroedd Claeare’.⁶¹ Yn y gerdd ysgytwol hon mae Waldo’n cofnodi un o frwydrau mawr y Pasiffig. Eto, yma, mae grym cariad yn cynnig drws eang i’r ddynoliaeth, oherwydd dyma’r grym sy’n dod â phobl at ei gilydd mewn cymdeithas nad yw’n arddel gelynyon:

Gwyn a du a melyn
Dan y môr ynghyd
Ni bydd neb yn elyn
Yn eu dirgel fyd.
Dan y dyfroedd claeare
Cawsant eang ddôr.
Wele, fawrion daear,
Gariad fel y môr.⁶²



Ond efallai mai un o'r darluniau egluraf o 'bensaer y cydymdeimlo' yw'r un a geir yn y soned 'Cymru'n Un', lle mae Waldo'n defnyddio strwythur y cyntedd i gyfleu ei weledigaeth: 'Ynof mae Cymru'n un. Y modd nis gwn. / Chwiliais drwy gyntedd maith fy mod / a chael deunydd cymdogaeth.'⁶³ Mynedfa i adeilad wedi ei chodi o gwmpas y drws yw cyntedd, darn arall o bensaerniaeth tŷ sy'n cysylltu'r tu fewn a'r tu fas. Diddorol yw nodi ei fod yn cael ei ddiffinio gan *Geiriadur Prifysgol Cymru* ar y naill law fel y darn sydd 'yn union y tu mewn i'r drws allanol' ac ar y llall fel 'man agored wedi ei balmantu o flaen adeilad'.⁶⁴ Ond mae'r amwysedd hwn yn ychwanegu at effaith y ddelwedd, oherwydd yma fe'i cawn yn drosiad cadarn arall am ein gallu fel pobl i ymestyn allan o'r hunan ac i gysylltu â'n gilydd. Mae deunydd y gymdogaeth gyfan yn yr hunan am fod yr hunan yn gallu ymestyn allan. Y gallu hwn, y canfyddiad fod 'deunydd cymdogaeth' i'w gael yng nghyntedd maith ei fod, sy'n rhoi i draethydd y gerdd yr ysfa i fod 'Ymhlith y rhai sydd am wneud Cymru'n bur / I'r enw nad oes mo'i rannu', ac sy'n rhoi hefyd iddo nerth i ddeisyfu 'Gobaith fo'n meistr: rhoed Amser inni'n was'.⁶⁵ Mynegiant llais gweithredwr, un sy'n dymuno byw, yw'r llais sy'n sylweddoli ei fod yn gallu ymestyn allan.

Un sydd wedi ysgrifennu am 'ymwybyddiaeth yr ymestyn' yng ngwaith Waldo Williams yw Ned Thomas.⁶⁶ Gwêl ef y modd yr 'estynnwyd y gofod mewanol' ar ôl dangos sut y mae'r meddwl 'yn troi'n ôl arno' i hun' fel un o 'nodweddion hyfrytaf llawer o gerddi Waldo'.⁶⁷ Gan ddyfynnu llawer esiampl, yn eu plith y dyfyniad uchod o 'Cymru'n Un', mae'n tynnu sylw at y 'symud rhwng cyfyngder ac ehangder'. Noda sut y mae'r 'gair *maith* yn ymddangos yn gyson', a sut y 'mae cwrs amser a phellter gofodol yn drosiadau sy'n cyfateb i ddyfnder yr ymwybyddiaeth fewnol'.⁶⁸ Ond gwelwn nad yr ymestyn *per se* sy'n rhoi'r gobaith, ond yn hytrach yr ymestyn a'r *cyrraedd* at y llall.

Ystyriwn y profiad yn 'Cwmwl Haf'.⁶⁹ Yma, cawn ddarlun o'r hyn a all ddigwydd i'r hunan pan yw wedi ei amddifadu o bob perthynas. Yn y chweched adran mae'r mynyddoedd yn gyntaf yn cau ac yna'n pellhau, fel y mae'r brwyn yn gyntaf yn tyfu yn goed ac yna'n darfod amdanynt, nes bod amlinell yr amgylchfyd arferol wedi ei chwalu a mynd y tu hwnt i afael yr hunan. Gellid dadlau bod y gorwelion yn ymestyn, ond effaith



hyn yw pwysleisio arwahanrwydd yr hunan. Nid yw'r hunan yn ymestyn allan, ac ni all gyrraedd at y llall. Mwyach nid oes 'acw'; nid oes dim yn weddill i'r hunan ond yr hunan. Mae'r holl gyfeirnodau dibynadwy wedi cilio, ac mae hyn yn brofiad arswydus:

Nid oes acw. Dim ond fi yw yma
 Fi
 Heb dad na mam na chwirydd na brawd,
 A'r dechrau a'r diwedd yn cau amdanaf.⁷⁰

Wedi rhoi llinell gyfan i'r un gair ynysig 'Fi' a thrwy hynny chwyddo'r unigrwydd, â'r gerdd yn ei blaen i ailadrodd y cwestiwn gwaelodol: 'Pwy wyf i? Pwy wyf i?' Wrth ystyried nad yw'r hunan yn ddim byd mwy na chwmpawd yr ysgerbwdd unigol y daw'r arswyd: 'Estyn fy mreichiau ac yno, rhwng eu dau fôn / Arswydo meddwl amdanaf fy hun.' Y cam arswydus nesaf yw dieithrio'r hunan oddi wrth yr hunan fel y mae'r symudiad o'r person cyntaf unigol (fi) i'r trydydd person unigol (ef/hwn) yn ei gyfleu, 'A gofyn gwaelod pob gofyn: / Pwy yw hwn?' Yma, cawn bortread clar o weledigaeth Waldo mai'r hyn sy'n rhoi ystyr i bob 'hunan' yw y 'llall', ac yn hyn o beth, atseinir athroniaeth Buber. Wedi gofyn 'gwaelod pob gofyn', clywir 'Sŵn y dŵr' a phrysuir ato, 'Bracsaf iddo am ateb'. Caiff y darlennydd ei dwyllo am eiliad y daw gwardigaeth drwy hyn, wedi'r cyfan, gŵyr pawb mai dŵr yw hanfod bywyd. Ond nid felly y mae. Dadrithiad a siom yw'r dŵr, oherwydd nid yw'n cynnig 'Dim ond y rhediad oer'. Rhaid chwilio ymhellach am ateb. Â'r holwr yn ei flaen gan anelu yn llawn ansicrwydd am gartref: 'Trwy'r clais adref os oes adref.' Wrth nesáu, mae'n dal yn y strwythur sy'n gwahanu'r tu fewn a'r tu fas, 'Swmpo'r post iet er amau', ac yma, er gwaetha'r amheuaeth ac – yn gwbl arwyddocaol – *cyn mynd i mewn i'r tŷ*, 'Ac O, cyn cyrraedd drws y cefn', daw'r ymwared, 'Sŵn adeiladu daear newydd a nefoedd newydd / Ar lawr y gegin oedd clocs mam i mi.' Nid y gegin, nid tu mewn y tŷ sy'n cynnig cysur iddo, ond yn hytrach bresenoldeb y llall cariadus, sef sŵn traed ei fam. Rhwng yr iet a'r drws yr hyn sy'n estyn tuag ato yw nid sŵn morthwyl na hoelion, ond sŵn clocs un a'i carai. Dyma yw'r cyrraedd go iawn, y 'Cyrraedd yn ôl' (chwedl teitl un o'i gerddi eraill⁷¹), sef y cyrraedd at berthyn ac at yr hunan arall.





Mae'n werth tynnu sylw at ddadansoddiad treiddgar Jason Walford Davies o'r gerdd hon.⁷² Yn ei erthygl mae'n dilyn trywydd abwyd a daflwyd gan R. Geraint Gruffydd wedi iddo yntau nodi dylanwad gwaith a ymddangosodd yn *The Penguin New Writing: 21* ar Waldo, yn benodol y stori fer, 'Above the Clouds' gan John Summerfield a dwy gerdd gan A. S. J. Tessimond, 'Not Love Perhaps' a 'First Meeting – To Diane'.⁷³ Y dyfyniad o'r stori fer sydd angen craffu arno yw'r un a ganlyn:

Below, the cloud tops seemed to be very slowly boiling; rifts appeared amongst them, through which could be glimpsed vast, ever-descending vistas of rocks and pines and, lower down, a green country of river-threaded fields. Beyond, lower still and out of sight, lay the cities and the plains, beyond lay all the people's world, to which I would return.⁷⁴

Mae'r dylanwad ar 'Cwmwl Haf' yn amlwg, ac eto fel gyda'r gymhariaeth rhwng 'Pa Beth yw Dyn?' a 'Cui Bono' uchod, mae'n werth nodi nad yw Summerfield, rhagor na Carlyle, yn troi at fanylion pensaernïol i ganiatáu inni weld a deall fel y gwna Waldo. Eto i gyd, ceir yma'r syniad mai dychwelyd i fyd pobl yw'r hyn a all gynnig achubiaeth. Yng ngherddi Tessimond yn yr un modd, gwelwn yntau'n darlunio'r llawenydd a'r llonyddwch meddwl a geir wrth ymestyn allan er mwyn cael bod ym mhresenoldeb y llall, gan ddweud: 'A need to reach out sometimes hand in hand – / And then find Earth less like an alien land.' A thrachefn, 'A need at times of each for each / Direct as the need of throat and tongue for speech.'⁷⁵ Ac eto yn yr ail gerdd, 'First Meeting – To Diane', cysylltir y cyfarfod gyda'r 'llall' fel dychwelyd adref, 'When I first met you I knew I had come at last home.'⁷⁶ Y cwrdd â'r llall sy'n adeiladu'r cartref am ei fod yn cyfannu'r hunan.

Ond cyn gadael ein hymdriniaeth o'r 'Cwmwl Haf', mae'n rhaid oedi gyda'r hyn y mae clocs mam wrthi'n ei wneud, sef 'adeiladu daear newydd a nefoedd newydd'.⁷⁷ Yn llyfrau'r Hen Destament, mae'r ferf 'adeiladu' yn cael ei defnyddio bron bob tro yn yr ystyr 'to build'. Mae pawb wrthi, yn enwedig y brenhinoedd, yn adeiladu tai o gerrig neu gedrwydd, allorau, tyrrau, tabernaclau, a phawb am y gorau'n rhestru pob math o fanylion am fesuriadau'r trigfannau gan ddechrau yn chweched bennod Genesis





gyda chyfarwyddiadau pendant sy'n nodi, er enghraifft, yn adnod 15 mai 'tri chan cufydd fydd hyd yr arch, deg cufydd a deugain ei lled, a deg cufydd ar hugain ei huchder'.⁷⁸ Ond o droi at y Testament Newydd gwelwn y defnyddir y ferf 'adeiladu' mewn modd tra gwahanol. Yma, defnyddir 'adeiladu' ar y cyfan i olygu 'addysgu' a 'gwella', ac mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau ddefnydd o'r un ferf yn cael ei amlygu wrth edrych ar y Saesneg lle defnyddir 'to build' am y naill ond 'to edify' am y llall. Gweler, er enghraifft, lythyr cyntaf Paul at y Corinthiaid 8:1, 'Gwybodaeth sydd yn chwyddo, eithr cariad sydd yn adeiladu'; neu lythyr cyntaf Paul at y Thesalonaiad 5:11, 'adeiladwch bob un ei gilydd, megis ag yr ydych yn gwneuthur'. Mae pensaernïeth y gymuned ôl Crist drwyddi draw yn wahanol. Ystyriwn, er enghraifft, yr hyn sy'n digwydd i bensaernïaeth cymdogaeth pan fo Crist yn gosod y cymydog yng nghorff y Samariad sy'n digwydd mynd heibio, ond sy'n oedi i estyn allan ac i gyfarfod â'r llall. Ac os yw Buber a Berdyaev yn ddylanwad ar Waldo, ni ellir troi clust fyddar i ddylanwad y Beibl a dysgeidiaeth y Bedyddwyr a Chapel Blaenconin arno chwaith.

Craffwyd ar y strwythurau pensaernïol sy'n caniatáu i'r tu fewn gwrdd â'r tu fas yn yr erthygl hon, gan weld sut y maent yn cynnig trosiad o'r modd y gall yr hunan gwrdd â'r hunan arall, y llall. Cyn cloi, hoffwn awgrymu mai'r ferf sy'n cwmpasu'r broses hon yn well nag ymestyn yw 'adnabod'. Mae'r 'presenoldeb ar y cyd' y cyfeiria Buber ato yn caniatáu inni gyrraedd y cyflwr o 'adnabod'. Ac os bu gair allweddol erioed i Waldo, 'adnabod' yw hwnnw. Tynnais sylw o'r blaen at y modd y mae'r gerdd sy'n dwyn y teitl 'Adnabod' yn ymddangos yn union yng nghanol *Dail Pren* ac mai'r gerdd hon a enwir gyntaf yn rhestr gynnwys y gyfrol (yn sgil ei llythyren gyntaf 'A').⁷⁹ Yn y gerdd hon, gwelwn yn ogystal fod byd y pensaer yn cynnig delweddaeth bwrpasol wrth awgrymu'r 'drws' yn y llinellau sy'n cyfarch 'awen Adnabod' fel 'Ti' a dweud: 'Ti yw'r teithiwr sy'n curo / Ti yw'r tywysog sy'n aros ynom'.⁸⁰

Drwy adnabod, nid ydym mwyach yn hunllef yr unigrwydd, ond yn hytrach yn rhan gyfartal yn rhwydwaith brawdoliaeth. 'Ti yw'r wyrth' meddai'r gerdd am adnabod, wedi dweud mai drwy adnabod rydym yn 'gydeneidiau' a'n bod yn gweld 'y ffordd ddiffuant'.⁸¹ Ond fel gyda hanes un o'r cyfarfyddiadau enwocaf a gofnodwyd erioed, gŵyr Waldo mai





theatr yr eiliad yw theatr adnabod yn aml iawn. Ar y ffordd i Emaus (lle mae'r Beibl Cymraeg Newydd yn manteisio'n llawn ar ogoniant araf ffurf y gorffennol i chwarae'r eiliad dyngedfennol mewn 'slow motion'), fel hyn y disgrifir datguddiad Crist gerbron y ddau deithiwr yn Luc 24:31, 'Agorwyd eu llygaid hwy, ac adnabuasant ef. A diflannodd ef o'u golwg.' Felly hefyd yng ngherdd Waldo, tystir mai 'eiliad o olau' ydyw profiad adnabod. Ond fel y dysgwn yn un o'i gerddi eraill, un sy'n dwyn 'Yr Eiliad' fel ei theitl, mae'r eiliad yn perthyn yn annatod i'r awr: 'Gwyddom gan ddyfod yr Eiliad / Ein geni i'r Awr.'⁸²

Mae gan Waldo'r pensaer y fantais o fod yn gweithio mewn pedwar dimensiwn, ac mae dimensiwn amser yn rhyddhau hyd a lled a dyfnder ei gynlluniau yn rhydd, oherwydd fel y noda Pennar Davies, wrth gyfeirio at yr awdl, mae gwaith Waldo yn 'gorchfygu cyfyngiadau "amser byd"'.⁸³ Mae Waldo'n deall nad yw 'byd amser yn ei grynswth' yn ddim ond 'llety fforddion'.⁸⁴

Wrth gloi, trown at bensaer Cymraeg nodedig, yr Athro Dewi-Prys Thomas, ac at wahoddiad gan Robyn Tomos, trefnydd celf yr Eisteddfod Genedlaethol a sbardunodd yr awydd i mi fynd yn ôl ar drywydd adeiladau Waldo. Roedd yntau'n trefnu digwyddiad yn y Lle Celf yn Eisteddfod y Fenni, 2016 er mwyn dathlu gwaith y pensaer a'r Athro Dewi-Prys Thomas, sylfaenydd Ysgol Bensaerniaeth Cymru ac athro cyntaf pensaerniaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Dymuniad Robyn Tomos oedd datblygu rhywfaint ar arfer Dewi-Prys Thomas o weld adeiladau fel cerddi, a thynnodd sylw penodol at y modd y sonia'r pensaer am Feudy Hengwm, bron fel Gerallt Lloyd Owen yng nghwpled agoriadol enwog ei awdl 'Afon', fel rhywbeth y gellir ei 'glywed â'r llygad'.⁸⁵ Mae'r cipolwg brasaf ar fywyd a gwaith Dewi-Prys Thomas yn cadarnhau'r defnydd a wna o ieithwedd barddoniaeth wrth drin gwrthrychau materol (ar y mesurau caeth, mae'n debyg), wrth iddo sôn am batrwm cymhleth sillafau ac odlau adeiladau, er eng-hraifft.⁸⁶ Yn fwy na hynny, ymboena am gwestiwn 'trefn', fel y gwelwn yn ei ysgrif 'Pensaerniaeth a Chymru': 'Y mae trefn yn anhepgor i wareiddiad. Rhaid trefnu'n dinasoedd a'n trefi – hyd yn oed ein pentrefi. Rhaid wrth gynllun i bob adeilad, a chynllunio yw sylfaen pensaerniaeth.'⁸⁷

Beth felly am drefn teyrnas Waldo? Gwelwn ym mhedwerydd pennill 'Pa Beth yw Dyn?' ei fod o'r farn nad yw dynoliaeth wedi meistrolï'r grefft





o drefnu teyrnas, a'i fod yn arswydo at y drefn bresennol, a hynny'n anad dim ar sail y ffaith ei bod wedi ei harfogi. Gwêl hyn fel peth mor anghyfrifol â 'Rhoi'r cyllyll yn llaw'r baban'.⁸⁸ Gwyddom hefyd o'i gerdd i blant 'Y Cymylau' nad oes lle i gaerau'r gormeswr yn ei drefn ddelfrydol, oherwydd os yw'r cymylau'n gallu ffurfio cestyll gwych, erbyn y bore gwelwn mai 'Malurio'r oedd y castell / Pan gododd niwl y nos.'⁸⁹ Nid trefn teyrnas elw yw ei drefn ddelfrydol chwaith. Yn 'Elw ac Awen' dywed yn eglur mai 'Tomen yn y cefn / Fydd holl grybibion Elw, twmpath i'r plant, / Pan roir ein hystafelloedd traphlith mewn trefn.'⁹⁰

Yn ei hanfod, gwelwn mai pen-adeiladwraig teyrnas Waldo yw awen adnabod, ei threfn hi sy'n cyfrif. Hi fydd yn datrys ein hannibendod, a hynny yn ôl cynllun gofalus; oherwydd yn ôl Waldo, mae'n rhaid wrth hynny, fel y deallwn yn y gerdd 'Bydd Ateb' sy'n dechrau 'Hen wŷr Pencader, ple mae'n pryderon?' ac yn gorffen: 'Bydd cynnull ein pwyll, bydd cynllunio pur.'⁹¹ O weithio fel cyd-frodyr, fel 'cymrodyr di-ri', mae gobaith adeiladu teyrnas ac iddi drefn well.⁹² Clywn ddatganiadau cadarnhaol i'r diben hwn yn y gerdd 'Caniad Ehedydd', lle dywedir: 'Bydd mwyn gymdeithas / Bydd eang urddas . . . / Bydd terfyn traha.'⁹³ Ond yn anad dim, bydd cydymdeimlad, neu yn hytrach, *mae* cydymdeimlad, a'r newid o ddyfodol y ferf i'r presennol yn cadarnhau rheswm y gobaith, 'Mae teyrnas gref, a'i rhaith / Yw cydymdeimlad maith.'⁹⁴ Deddf a chyfraith teyrnas Waldo yw cydymdeimlad, a dyna'r fendith fawr: mae'r gobaith yn Waldo wedi ei ddiriaethu, mae gwrthrych pob dyheu yn bresennol. Yn ei phosibilrwydd y mae'n weledigaeth ac yn bensaerniaeth radical, oherwydd fel dywedodd y Williams arall, Raymond Williams, 'To be truly radical is to make hope possible, not despair convincing.'⁹⁵ Does dim gormesu yn y deyrnas ddelfrydol, bosibl, a bortreadir rhwng cloriau *Dail Pren* ac fe'i hadeiladir yn ôl cynllun pensaerniaeth cydymdeimlad.

Caerfyrddin

MERERID HOPWOOD



Nodiadau

- ¹ Waldo Williams, *Dail Pren* (Llandysul: Gwasg Aberystwyth, 1956), tt. 9–22. Diolchir i Mrs Eluned Richards am ganiatâd i gyhoeddi gwaith Waldo Williams yn yr erthygl hon.
- ² Tony Bianchi, ‘Waldo ac Apocalyps’, yn Robert Rhys (gol.), *Waldo Williams: Cyfres y Meistri 2* (Abertawe: Christopher Davies, 1981), t. 302.
- ³ Gw. hefyd Marc 14:58; Actau 7:48; Hebreaid 9:11, 24.
- ⁴ *GPC*, d.g. *teulu*.
- ⁵ *On Show: ‘Peacemaker’* (BBC, 2005) (Executive Producer, Gail Evans; Production Associate, Damian Walford Davies; Producer/Director, Gwyndaf Roberts).
- ⁶ *On Show: ‘Peacemaker’*.
- ⁷ Diarmait Mac Giolla Chrïost, *Welsh Writing, Political Action and Incarceration: Branwen’s Starling* (UK: Palgrave Macmillan, 2013), t. 74.
- ⁸ Mac Giolla Chrïost, *Welsh Writing, Political Action and Incarceration*, t. 75.
- ⁹ Ieuan Wyn, “‘Mi welais drefn yn fy mhalas draw.’” Beth oedd natur gobaith Waldo?, *Y Faner Newydd*, 78 (2017), 24.
- ¹⁰ Williams, *Dail Pren*, t. 22: ‘A thŷ llwyth nid o waith llaw’; t. 23: ‘y tŷ anweledig a diamser’; t. 100: ‘Tŷ teilwng i’w dehonglreg’; t. 40: ‘Oherwydd ein dyfod i’r tŷ cadarn’; t. 87: ‘Bydd hawlio’r tŷ’; t. 67: ‘Cadw tŷ / mewn cwmwl tystion’; t. 48: ‘Yn y tŷ sydd allan ym mhob tywydd’, a ‘Caredigrwydd oedd y tŷ’.
- ¹¹ Williams, *Dail Pren*, t. 102: ‘A hwylio toc i gael tŷ’.
- ¹² Williams, *Dail Pren*, tt. 54–5: e.e. ‘Yn y tŷ mae calon cwm’; t. 34: ‘R un tŷ, ’r un to, i’r un tân’; t. 46: ‘Haf a rhos wrth gefn ei dŷ’; t. 75: ‘O’r boncyff tŷ’.
- ¹³ Mererid Hopwood, “‘Pobun â’i lais . . . Pobun â’i le’” – Waldo Williams: Bardd Plant Cymru’, *Llên Cymru*, 38 (2016), 85.
- ¹⁴ E. Llwyd Williams a Waldo Williams, *Cerddi’r Plant*, ail argraffiad (Llandysul: Gomer, 1955), tt. 12, 14.
- ¹⁵ Hugh Bevan, ‘Barddoniaeth y Cae Agored’, yn Rhys (gol.) *Waldo Williams: Cyfres y Meistri 2*, tt. 256–64.
- ¹⁶ Bevan, ‘Barddoniaeth y Cae Agored’, t. 256.
- ¹⁷ Williams, ‘Pa Beth yw Dyn?’, yn *Dail Pren*, t. 67; ‘Tŷ Ddewi’, yn *Dail Pren*, t. 22; ‘Cwmwl Haf’, yn *Dail Pren*, t. 48.
- ¹⁸ Williams, ‘Cofio’, yn *Dail Pren*, t. 78.
- ¹⁹ ‘Cofio’, tt. 30, 44.
- ²⁰ ‘Cofio’, t. 57.
- ²¹ ‘Cofio’, tt. 102, 106, 92.
- ²² ‘Cofio’, tt. 64, 65.
- ²³ ‘Cofio’, t. 97.
- ²⁴ ‘Cofio’, t. 43.
- ²⁵ ‘Cofio’, tt. 25, 40, 48, 68.



- ²⁶ Hopwood, “Pobun â’i lais . . . Pobun â’i le”, 85; Wyn, ““Mi welais drefn yn fy mhalas draw””, 24.
- ²⁷ Williams, ‘Cymru’n Un’, yn *Dail Pren*, t. 93.
- ²⁸ Williams, ‘Pa Beth yw Dyn?’, t. 67.
- ²⁹ Williams, ‘Y Tŵr a’r Graig’, yn *Dail Pren*, t. 34.
- ³⁰ Williams, ‘Pa Beth yw Dyn?’, t. 67.
- ³¹ Dyfynnir yn Alan Llwyd, *Waldo, Cofiant Waldo Williams: 1904–1971* (Talybont: Y Lolfa, 2014), tt. 75–6.
- ³² Williams, *Dail Pren*, t. 67.
- ³³ Williams, *Dail Pren*, t. 27.
- ³⁴ Nid yw ‘dirhau’ yn *Geiriadur Prifysgol Cymru*, ond y mae ‘diriaethu’, ac mae’n ddifyr nodi mai’r cyfieithiad a gynigir i’r Saesneg o’r ferf honno yw ‘to make concrete’.
- ³⁵ Martin Buber, *Ich und Du* (Heidelberg: Lambert Schneider, 1983).
- ³⁶ Martin Buber, *Between Man and Man*, cyf. Ronald Gregor Smith (London: K. Paul, 1947).
- ³⁷ Martin Buber, *Die vier Zweige des Mabinogi, ein keltisches Sagenbuch* (Ditzingen: Reclam, 1995).
- ³⁸ Buber, *Ich und Du*, t. 3.
- ³⁹ Buber, *Ich und Du*, t. 6.
- ⁴⁰ Buber, *Ich und Du*, t. 12.
- ⁴¹ ‘All real living is meeting’ yw’r ymgais yng nghyfieithad Ronald Gregor Smith, *I and Thou, Martin Buber* (Oxford: Bloomsbury, 2013), t. 9.
- ⁴² *GPC*, d.g. *cyfarfod*.
- ⁴³ *GPC*, d.g. *cyfarfod*.
- ⁴⁴ Williams, *Dail Pren*, tt. 72–3.
- ⁴⁵ Emyr Llywelyn, ‘Darganfod y niwronau sy’n ein galluogi i gydymdeimlo â’n gilydd’, *Y Faner Newydd*, 60 (2012), 18–19.
- ⁴⁶ Llywelyn, ‘Darganfod y niwronau sy’n ein galluogi i gydymdeimlo â’n gilydd’, 19.
- ⁴⁷ Pennar Davies, ‘Meddylfryd Waldo’, yn James Nicholas (gol.), *Waldo: Teyrnged* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1977), t. 189.
- ⁴⁸ Davies, ‘Meddylfryd Waldo’.
- ⁴⁹ Williams, *Dail Pren*, t. 79.
- ⁵⁰ W. John Morgan, ‘Peace Profile: Waldo Williams’, *Peace Review: Journal of Social Justice*, 27:2 (2015), 249.
- ⁵¹ Bobi Jones, ‘Nid Niwl yn Chwarae’, yn Nicholas (gol.), *Waldo: Teyrnged*, t. 94.
- ⁵² Robert Rhys, ‘Barddoniaeth Waldo Williams, 1940–2’, yn D. Walford Davies a J. Walford Davies (goln), *Cof ac Arwydd* (Llandybïe: Barddas, 2016), t. 32.
- ⁵³ Williams, *Dail Pren*, t. 30.
- ⁵⁴ Williams, *Dail Pren*, t. 30.



- ⁵⁵ Williams, *Dail Pren*, t. 84.
- ⁵⁶ Williams, *Dail Pren*, t. 95.
- ⁵⁷ Williams, *Dail Pren*, t. 28.
- ⁵⁸ Williams, *Dail Pren*, t. 43.
- ⁵⁹ Williams, *Dail Pren*, t. 43.
- ⁶⁰ Williams, *Dail Pren*, t. 89.
- ⁶¹ Williams, *Dail Pren*, t. 69.
- ⁶² Williams, *Dail Pren*, t. 69.
- ⁶³ Williams, *Dail Pren*, t. 93.
- ⁶⁴ *GPC*, d.g. *cyntedd*.
- ⁶⁵ Williams, *Dail Pren*, t. 93.
- ⁶⁶ Ned Thomas, *Waldo*, Cyfres Llên y Llenor (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 1985).
- ⁶⁷ Thomas, *Waldo*, t. 46.
- ⁶⁸ Thomas, *Waldo*, t. 47.
- ⁶⁹ Gw. sylwadau cychwynnol i'r cyfeiriad hwn yn Hopwood, “Pobun â'i lais . . . Pobun â'i le”, 85.
- ⁷⁰ Williams, *Dail Pren*, t. 49.
- ⁷¹ Williams, *Dail Pren*, t. 70.
- ⁷² Jason Walford Davies, “Myned Allan i Fanfrig Gwreiddiau”: Waldo Williams a *The Penguin New Writing*’, *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 19 (2013), 148–68.
- ⁷³ John Lehman (gol.), *The Penguin New Writing: 21* (London: Penguin, 1944), tt. 27–44, 99–100.
- ⁷⁴ Lehman (gol.), *The Penguin New Writing: 21*, t. 44.
- ⁷⁵ Lehman (gol.), *The Penguin New Writing: 21*, t. 99.
- ⁷⁶ Lehman (gol.), *The Penguin New Writing: 21*, t. 99.
- ⁷⁷ Williams, *Dail Pren*, t. 48.
- ⁷⁸ Genesis 6:15.
- ⁷⁹ Gw. Hopwood, “Pobun â'i lais . . . Pobun â'i le” 92.
- ⁸⁰ Williams, *Dail Pren*, t. 63.
- ⁸¹ Williams, *Dail Pren*, t. 62.
- ⁸² Williams, *Dail Pren*, t. 76.
- ⁸³ Davies, ‘Meddylfryd Waldo Williams’, t. 187.
- ⁸⁴ Waldo Williams, ‘Llety Fforddion’, yn Damian Walford Davies (gol.), *Waldo Williams: Rhyddiaith* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2001), t. 66.
- ⁸⁵ Gerallt Lloyd Owen, *Cilmeri* (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 1991), t. 22; Dewi-Prys Thomas, yn Meic Stephens (gol.), *Artists in Wales 3* (Llandysul: Gomer, 1977), t. 19.
- ⁸⁶ Thomas, *Artists in Wales 3*, t. 18: ‘The bowl contains, as within a poem, complicated syllabic and rhyming shapes; *it is a Welsh poem.*’ (Pwyslais yn y gwreiddiol.)

- ⁸⁷ Dewi-Prys Thomas, 'Pensaerniaeth a Chymru', *Tir Newydd*, 15 (1939), 8.
⁸⁸ Williams, 'Pa Beth yw Dyn?', t. 67.
⁸⁹ Williams a Williams, *Cerddi'r Plant*, t. 25.
⁹⁰ Williams, *Dail Pren*, t. 61.
⁹¹ Williams, *Dail Pren*, t. 87.
⁹² Williams, *Dail Pren*, t. 34.
⁹³ Williams, *Dail Pren*, t. 94.
⁹⁴ Williams, *Dail Pren*, t. 79.
⁹⁵ Raymond Williams, *Resources of Hope, Culture and Democracy* (London: Verso, 1989), t. 118.